Annwyl Gynghorydd Powell

Yn dilyn e-bost fy nghydweithiwr Matthew Brushett atoch ar 31 Gorffennaf 2014, rwyf nawr mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais ar 29 Gorffennaf 2014. Rwyf wedi nodi fy ateb i bob cwestiwn a ofynnwyd gennych mewn teip trwm isod o dan eich cwestiynau.

1. *Pa gyngor roddodd yr Archwilydd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o ran y ffordd y mae wedi bod yn gwario arian cyhoeddus ac adnoddau ariannol i ddarparu gwasanaethau ers Mai 2010?*

Nid rôl yr archwilydd yw darparu cyngor, er bod casgliadau ei waith wedi'u nodi mewn Llythyrau Archwilio Blynyddol (sy'n rhan o'r Adroddiadau Gwella Blynyddol) sydd i'w cael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

2. *A yw'r Archwilydd, ar unrhyw adeg, wedi nodi y dylai'r Gwasanaethau Hamdden fod wedi bod yn cynnal ei ganolfannau chwaraeon mewn modd a fyddai'n monitro'n gyson lle mae yna orgyflenwi cyfleusterau'n digwydd ers Mai 2010?*

Nid oes gennym wybodaeth sy'n cyfateb i'r disgrifiad hwn.

3. *A yw'r Archwilydd, ar unrhyw adeg, wedi nodi bod unrhyw feysydd gwariant y Cyngor yn cyflenwi mwy o wasanaethau nag sydd raid neu'n ddoeth ers Mai 2010?*

Nid oes gennym wybodaeth sy'n cyfateb i'r disgrifiad hwn.

4. *A yw'r Archwilydd wedi sylwi bod y Cyngor wedi cyflogi nifer uchel o staff ers Mai 2010?*

Mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru beth gwybodaeth am gyfanswm gweithwyr y Cyngor, ond mae geiriad eich cwestiwn fel pe bai'n awgrymu eich bod am wybod a yw'r archwilydd wedi penderfynu bod nifer y staff a gyflogwyd ers Mai 2010 yn uchel, ac nid oes gennym gofnod o benderfyniad o'r fath.

5. *A yw'r Archwilydd yn fodlon bod y Cyngor yn methu gwahanu costau rhwng defnydd sych a gwlyb mewn achosion pan fo canolfannau chwaraeon yn cynnwys pyllau nofio hefyd?*

Nid cais am wybodaeth gofnodedig yw hwn, ond eto gallaf gadarnhau nad ydym wedi edrych ar y maes gweithgarwch hwn.

6. *A yw'r Archwilydd yn credu bod y Cyngor yn cael gwerth am arian mewn perthynas â nifer y staff asiantaeth a gyflogwyd ganddo ers Mai 2010?*

Nid yw hwn yn gais am wybodaeth gofnodedig 'chwaith, ond eto gallaf gadarnhau nad ydym wedi edrych ar y maes gweithgarwch hwn.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau neu gwestiynau am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â fi.

Yn gywir

Ian Phillips